

# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen  
Y Tyllgoed  
Caerdydd  
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499  
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes



Pentrebaen Road  
Fairwater  
Cardiff  
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499  
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

Ebrill 28ain, 2017

## Cais i rieni atgyfnerthu rheolau'r Ysgol

Annwyl riant / warcheidwad

Ysgrifennaf atoch ar gychwyn tymor yr haf i ofyn am eich cydweithrediad wrth atgyfnerthu rheolau'r ysgol ac wrth sicrhau bod eich plentyn yn cydymffurfio â rheolau'r ysgol ar wisg, gemwaith a cholur cyn iddynt adael y cartref am yr ysgol yn y bore. Mae'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion yn cydymffurfio'n berffaith â'r rheolau isod a diolchwn i rieni / warcheidwaid am eu cefnogaeth ar y mater hwn.

### Cymreictod:

Y Gymraeg yw iaith ffurfiol ac anffurfiol yr ysgol.

### Gwisg ysgol:

Crys polo marŵn.  
Siwmpwr / hwidi marŵn (CA3) du (CA4). O fis Medi bydd disgwyl i bawb wisgo siwmpwr gwddf 'v' yr ysgol. Sgert ysgol swyddogol ac nid sgert 'lycra' sydd o hyd addas i'r gweithle neu drowsus Ysgol du (dim 'jeans' na 'leggings').

Cot lliw tywyll.

Esgidiau du / esgidiau ymarfer du (dim 'boots' na lliw).

### Gemwaith, colur a lliw gwallt:

Mae'r rheol yn un syml – dim colur gan gynnwys paent ewinedd a dim gemwaith. Lliw gwallt naturiol.

### Gwm cnoi:

Ni chaniateir gwm cnoi yn yr ysgol gan ei fod yn difetha ein carpedi a'n dodrefn.

### Offer addysgol:

Mae nifer fawr o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol heb yr offer dysgu angenrheidiol a gwastreffir amser addysgu gwerthfawr yn dosbarthu adnoddau. Gofynnir yn garedig i rieni wirio bod gan eu plant gas pensiliau llawn adnoddau (pensil, pen, pren mesur, rwber, cyfrifiannell, pensiliau lliw, onglydd, cwmpawd).

### Ffonau symudol:

Wedi eu diffodd yn ystod oriau'r ysgol a'u cadw ym mag y disgybl oni bai bod athro yn gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio eu ffonau mewn gwarsi ar gyfer pwrpas gwaith ymchwil. Ar hyn o bryd caiff disgyblion defnyddio eu ffonau mewn manau penodol o'r ysgol yn ystod amser egwyl a chinio ond mae'r trefniant hyn yn cael ei adolygu.

### Prydlondeb:

Mae'n hanfodol bwysig bod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn y gloch gyntaf am 0845 pob bore.

Cyngor Sir Caerdydd  
Cardiff County Council



# Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr

Ffordd Pentrebaen  
Y Tyllgoed  
Caerdydd  
CF5 3PZ

Ffôn : (029) 20 405499  
Ffacs: (029) 20 405496

Pennaeth: Mr John D Hayes



Pentrebaen Road  
Fairwater  
Cardiff  
CF5 3PZ

Tel: (029) 20 405499  
Fax: (029) 20 405496

Headteacher: Mr John D Hayes

## Gwaith cartref:

Disgwylir i bob disgybl gofnodi pob darn o waith cartref yn eu llawlyfrau a chwblhau'r tasgau erbyn y dyddiad cau a osodwyd gan yr athro/athrawes.

## Ymddygiad ar y daith i'r ysgol ac o'r ysgol:

Disgwylir i bob disgybl ymddwyn yn waraidd ar y daith i'r ysgol yn y bore ac adref o'r ysgol yn y prynhawn.

## 'Fidget spinners':

Maent yn bla yn yr Ysgol ac yn amharu ar wersi felly nid oes hawl gan ddisgyblion ddod a hwy i'r Ysgol.

## Bwyta'n iach:

Mae pob ysgol yng Nghymru bellach yn cydymffurfio'n llawn â safonau Ysgolion Iach Llywodraeth Cymru gan gynnwys y bwyd a werthir yn ffreutur yr ysgol. Gofynnir yn garedig i rieni gefnogi ymgyrch bwyta'n iach yr ysgol drwy ddarparu pecynnau bwyd iachus i'w plant ac i gefnogi'r ysgol yn ei hymdrechion i atal diodydd sy'n uchel mewn siwgr rhag cyrraedd yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol wedi cymeradwyo gwaharddiad o ddiodydd 'ynni uchel' yn yr Ysgol a chaiff y diodydd hyn eu cymryd i ffwrdd o ddisgyblion o hyn allan.

Wrth gydweithio fe allwn sicrhau bod disgwyladau'r ysgol am safonau uchel yn cael eu cynnal. Gwyddom o brofiad fod cynnal safonau uchel yn nhermau gwisg ac ymddangosiad yn cael ei adlewyrchu yng nghyrhaeddiad academaidd ein disgyblion.

Mewn achosion lle mae disgyblion yn dewis herio rheolau'r ysgol yn rheolaidd fe fyddwn yn disgyblu'r disgybl a gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth pe bai angen i ni gysylltu â chi i drafod y sefyllfa.

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad ar y mater hwn.

Yn gywir

John Hayes

Pennaeth

Cyngor Sir Caerdydd  
Cardiff County Council

